# Y Diweddaraf am Bolisi'r UE (EU2015.03)
# Cynhyrchu Organig a Labelu Cynhyrchion Organig

Y Diweddaraf am Bolisi'r UE

Awst 2015

## In Rhagarweiniad

Ar 24 Mawrth 2014 cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd becyn o gynigion deddfwriaethol ar gyfer ***Rheoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig***.

Mae'r cynigion yn dod yn sgil ymgynghoriad cyhoeddus ar ddyfodol sector bwyd organig yr UE. Yn fras, nod y cynigion yw ysgafnhau'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu organig, a gwella neu gynnal hyder defnyddwyr mewn cynhyrchion organig, yn benodol drwy gael gwared ar y rhanddirymiadau a'r esemptiadau a ganiateir o dan reoliad presennol y Cyngor, (EC)834/2007[1].

Yn ychwanegol at y cynigion rheoleiddio, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi **Cynllun Gweithredu** ar ddyfodol cynhyrchu organig yn Ewrop.

## Crynodeb o brif bwyntiau'r cynigion

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn nodi mai prif amcanion y cynigion yw:

- **cael gwared ar y rhwystrau** i ddatblygiad cynaliadwy cynhyrchu organig yn yr Undeb;
- **gwarantu cystadleuaeth deg** i ffermwyr a gweithredwyr, a rhoi cyfle i'r farchnad fewnol weithredu'n fwy effeithlon;
- **cynnal neu wella hyder defnyddwyr** mewn cynnyrch organig.

[1] ***OJ L 189, 20.7.2007*** [fel ar 29 Hydref 2014]

Disgwylir canlyniadau eraill hefyd, sef:

- **rheolau cliriach a symlach ar gyfer cynhyrchu**, er mwyn gwneud y sector yn fwy deniadol i ffermwyr newydd
- **cysoni rheolau** a chydnabod cyrff rheoli mewn trydydd gwledydd, er mwyn gwneud cystadleuaeth yn decach, sicrhau mwy o reolaeth, a lleihau cymhlethdodau o ran y ddeddfwriaeth a'r rheolau masnach.
- **cael gwared ar eithriadau i'r rheolau**, fel yr eithriad sy'n caniatáu gweddillion sylweddau heb eu hawdurdodi mewn cynhyrchion organig, er mwyn mynd i'r afael ag achosion o dwyll organig
- **rheolaethau a chyfundrefnau mewnforio sy'n seiliedig ar risg** er mwyn gwneud rheolaethau yn fwy effeithiol ac effeithlon o ran mynd i'r afael â thwyll
- Pwyslais parhaus ar **effeithiau sy'n llesol i'r amgylchedd ac ar amodau lles anifeiliaid**

### Newidiadau i reolau cynhyrchu

Roedd rheoliad y Cyngor (EC) 834/2007 yn caniatáu i rai mathau o fanwerthwyr a chynhyrchwyr fod yn esempt o'r rheolau ar gynhyrchu. Fodd bynnag, yn ôl y cynigion newydd:

> ...The experience gained from the application of those provisions has shown that such exemptions have a negative impact on organic production. In particular, it has been found that the very existence of such exceptions impedes the production of inputs in organic form and that the high level of animal welfare associated with organic production is not ensured.... the existence of exceptions has created conditions for distortions in competition and has threatened to undermine consumer confidence.

Yn benodol, mae'r rheoliad yn cynnig y bydd yn rhaid i ddaliadau fferm, ar ôl cyfnod byr o addasu, fod yn gwbl organig, heb fod unrhyw weithgaredd ffermio confensiynol yn digwydd arnynt.

Mae'r rheoliad hefyd yn cynnig diddymu eithriadau sy'n caniatáu bwydo porthiant anorganig i dda byw mewn rhai amgylchiadau. Felly, rhaid i dda byw gael porthiant organig ag ynddo gynhwysion amaethyddol a gynhyrchwyd yn organig neu sylweddau naturiol nad ydynt yn amaethyddol.

### Systemau rheoli

Wrth symud i ddulliau rheoli sy'n seiliedig ar risg, mae'r rheoliad hefyd yn cynnig cael gwared ar yr archwiliadau ffisegol blynyddol i gadarnhau a yw ffermwyr yn cydymffurfio â'r rheolau. Diben hyn yw lleihau costau ac ysgafnhau'r beichiau gweinyddol ar ffermwyr sy'n cydymffurfio.

Bwriedir cyflwyno system o ardystio grwpiau o ffermwyr bach yn yr UE er mwyn arwain at ddulliau mwy cymesur o archwilio a chofnodi, ac annog rhagor o ffermwyr bach i ymuno â chynllun organig yr UE.

Hefyd, byddai'r rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl weithredwyr ar hyd y gadwyn organig fod yn rhan o'r system reoli. Byddai hyn yn cael gwared ar y pŵer sydd gan awdurdodau cymwys cenedlaethol i esemptio rhai gweithrediadau manwerthu o'r angen i gydymffurfio â gofynion ardystio organig os byddant o'r farn bod twyll neu halogiad yn annhebygol o ddigwydd.

### Y fasnach cynhyrchion organig

Un o'r prif nodau wrth newid y rheolau masnach yw sicrhau mwy o chwarae teg i weithredwyr organig yr UE ac mewn trydydd gwledydd, ac i ennyn hyder defnyddwyr yn well.

Cynigir system o gytundebau cywerthedd lle caiff rheolau cynhyrchu organig mewn trydydd gwledydd eu cydnabod yn rhai sydd gyfwerth â rhai'r UE. Anelir at drefnu cytundebau dwyochrog gyda'r trydydd partïon hyn er mwyn ei gwneud yn haws i'r Undeb allforio cynhyrchion organig i'r farchnad ryngwladol, ac er mwyn iddo allu mewnforio cynhyrchion organig sy'n cwrdd â safonau cydymffurfiaeth.

Wrth i gyrff rheoli symud tuag at gyfundrefn gydymffurfio, byddai'n rhaid i gynhyrchion a fewnforir gadw at un set o reolau cynhyrchu UE.

### Cynllun Gweithredu

Mae'r **Cynllun Gweithredu** wedi'i lunio hyd at 2020, a'r nod yw paratoi'r diwydiant ar gyfer y rheoliadau newydd.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth:

**01.** gwneud cynhyrchwyr organig yr UE yn fwy cystadleuol

**02.** cryfhau hyder ac ymddiriedaeth defnyddwyr ym mwyd organig yr UE a chynhyrchion organig a fewnforiwyd

**03.** atgyfnerthu dimensiwn allanol cynllun cynhyrchu organig yr UE

## Cefndir y cynnig

### Sector sy'n cael ei yrru gan egwyddorion

O fewn yr UE, rhaid i ffermio organig gadw at set gaeth o egwyddorion llywodraethu a gynlluniwyd i leihau effaith pobl ar yr amgylchedd a sicrhau ar yr un pryd bod y system amaethyddol yn gweithredu mor naturiol ag y bo modd.

Rhaid i gynhyrchu organig barchu cylchoedd naturiol, gyda'r nod o sicrhau cynhyrchu cynaliadwy drwy brosesau biolegol a mecanyddol a heb organeddau a addaswyd yn enetig. Ffefrir 'cylchoedd caeedig', sy'n defnyddio adnoddau organig ar y fferm, yn hytrach na 'chylchoedd agored' sy'n defnyddio adnoddau allanol. Dylai adnoddau allanol hefyd fod yn organig ac ni chaniateir adnoddau synthetig cemegol dim ond pan fydd prinder dewisiadau amgen addas.

Cyn y ceir marcio bwydydd yn 'organig' rhaid i o leiaf 95% o'u cynhwysion amaethyddol fod yn organig.

Rhaid i fwyd organig arddangos logo organig yr UE, a rhaid nodi'r man lle cafodd y cynhwysion amaethyddol eu cynhyrchu.

### Twf y sector organig

Mae'r sector organig yn yr UE wedi bod yn datblygu'n gyflym. Cynyddodd cyfanswm yr arwynebedd sy'n cael ei drin yn organig o 5.7 miliwn hectar yn 2002 i 9.6 miliwn hectar yn 2011 – 5.4% o gyfanswm arwynebedd amaethyddol yr UE. Cynyddodd nifer y daliadau organig bron ddeg gwaith yn ystod 2003-10, ac yn 2011 roedd 270,000 o weithredwyr organig wedi'u cofrestru yn yr UE. [2]

### Y ddeddfwriaeth

Mabwysiadodd yr Undeb ei ddeddfwriaeth gyntaf ar gynhyrchu organig yn 1991 (Rheoliad y Cyngor (EEC) 2092/91)[3], a oedd yn darparu diffiniad cyfreithiol o gynhyrchu organig ac yn sail ar gyfer diogelu defnyddwyr a chynhyrchwyr organig rhag hawliadau organig ffug a chamarweiniol.

Ers hynny, mae'r Undeb wedi mabwysiadu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 834/2007, sy'n cynnwys amlinelliad pellach o amcanion ac egwyddorion cynhyrchu organig. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar gyflawni safonau uchel o ddiogelwch amgylcheddol, bioamrywiaeth a lles anifeiliaid.  Hefyd, ac yn arwyddocaol, cyflwynwyd y posibilrwydd o gyflwyno eithriadau i'r rheolau drwy ddiddymu'r rheolau cenedlaethol ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid.

Mae'r adolygiad[4] o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 834/2007, a gynhaliwyd fel rhan o Raglen Ffitrwydd a Pherfformiad Rheoleiddiol y Comisiwn, yn awgrymu y gallai'r rheolau presennol gael eu symleiddio, ac y gallai'r costau rheoleiddio fod yn is.

[2] **Y Comisiwn Ewropeaidd, Facts and figures on organic agriculture in the European Union** [fel ar 29 Hydref 2014]
[3] *OJ L198, 22.7.1991* [fel ar 29 Hydref 2014]
[4] Grŵp IFOAM yr UE (2012) *European Organic Regulations (EC) No 834/2007, 889/2008 and 1235/2008: An Evaluation of the First Three Years Looking for Further Development.* Brwsel: IFOAM yr UE.

Amlygodd yr adolygiad bryderon nad yw'r ddeddfwriaeth wedi cyd-gerdded ag ehangiad y farchnad organig. Mabwysiadodd y Cyngor y casgliadau yn adroddiad y Comisiwn ym mis Mai 2013 a oedd yn targedu'n benodol ddulliau o wneud y fframwaith cyfreithiol presennol yn gliriach ac yn symlach.

## Perthnasedd i Gymru

Ar ddiwedd 2010, roedd dros 1,000 o ffermydd organig yng Nghymru ac roedd oddeutu 8% o gyfanswm yr arwynebedd tir yn cael ei reoli'n organig neu'n cael ei droi'n dir dan reolaeth organig.  Mae'r gyfran hon yn uwch na'r gyfran yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.[5] Yn 2012, yng Nghymru yr oedd y gyfran ail uchaf o weithredwyr organig yn y DU, ar ôl de-orllewin Lloegr. [6] Er bod cyfanswm yr arwynebedd tir sy'n cael ei ffermio'n organig wedi cynyddu dros 50% yn ystod 2006-10[7], gostyngodd yr arwynebedd tir a oedd yn cael ei droi'n organig yn ystod 2010, a bu tua 25% o ostyngiad mewn busnesau fferm a oedd yn dewis seilio'u model busnes ar ffermio organig[8].

Ar lefel manwerthu, mae marchnad y DU mewn cynnyrch organig wedi gostwng yn sylweddol ers 2007. Mae Llywodraeth Cymru wedi priodoli hyn i gyfuniad o effeithiau'r dirwasgiad ac, yn fwy diweddar, y tywydd heriol sydd wedi arwain at gynhyrchiant isel a chostau porthiant uchel. [9] Yn 2012, bu gostyngiad o 5% mewn cynhyrchwyr organig yng Nghymru ac yn 2013 bu gostyngiad

[5] **Canolfan Organig Cymru** [fel ar 29 Hydref 2014]
[6] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) (2013) *Organic farming statistics 2012*. Llundain, DEFRA.
[7] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) (2013) *Organic farming statistics 2012*. Llundain, DEFRA.
[8] Llywodraeth Cymru, Alun Davies (y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 6 Chwefror 2014 [fel ar 12 Mai 2014]
[9] Llywodraeth Cymru, Cymorth ar gyfer Ffermio Organig 2015-2020, Dogfen Ymgynghori, 21 Ionawr 2014 [fel ar 13 Mai 2014]

pellach o 15%.[10] Ers 2013, mae'r sefyllfa wedi gwella'n sylweddol.[11] Roedd Adroddiad y Farchnad Organig 2014 yn dangos bod cynnydd o 2.8 y cant i £1.79 biliwn wedi bod yn y cynhyrchion organig a werthwyd yn y DU yn 2013. Mae Canolfan Organig Cymru yn nodi y caiff y tueddiadau cenedlaethol hyn eu hadlewyrchu yng Nghymru.[12]

Ar hyn o bryd, mae cymorth ar gyfer ffermio organig yng Nghymru yn cael ei ddarparu drwy Glastir. Ym mis Tachwedd 2013, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei chynigion ar gyfer cymorth ar gyfer ffermio organig o dan y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf. Cyhoeddodd ganlyniadau'r ymgynghoriad mewn datganiad a gyhoeddwyd ar 6 Chwefror 2014.[13] Yn eu plith, roedd argymhelliad i wneud y taliadau presennol i ffermwyr droi at ffermio organig a pharhau'n organig yn rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig nesaf ar gyfer 2014-20, fel cynllun organig penodol o dan Glastir.

Llywodraeth y DU yw'r awdurdod cymwys o ran y rheoliadau, a bydd yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru wrth weinyddu a gorfodi'r cynigion.

**Y meysydd allweddol o ddiddordeb i Gymru yn rheoliadau newydd arfaethedig y Comisiwn fydd:**

– **Ffermydd cymysg-** bydd yn rhaid i weithredwyr reoli pob un o'u daliadau a chydymffurfio â'r gofynion o ran cynhyrchu organig;

– **Safonau lles anifeiliaid**- gwahardd y broses o anffurfio anifeiliaid, gan gynnwys torri cynffonnau a digornio;

– **Dileu ardystiad-** dileu ardystiad gan fod gweddillion anorganig yn bresennol;

– **Dileu'r eithriad manwerthu**- sy'n ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr fod yn destun ardystiad;

– **Archwiliadau (rheoli)-** newid i archwiliadau yn seiliedig ar risg ar gyfer ardystio yn hytrach nag archwiliadau blynyddol;

– **Stoc bridio a hadau organig – d**ileu'r eithriadau sy'n caniatáu defnyddio stoc bridio a hadau confensiynol.

## Safbwynt Llywodraeth y DU

Ar 25 Mawrth 2014, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Femorandwm Esboniadol yn nodi ei hymateb i gynigion y Comisiwn.

Yn ei Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth y DU yn tynnu sylw at bethau a allai ddeillio o rai o'r cynigion a allai fod o fudd i sector organig y DU. Mae'r rheini'n cynnwys:

– symud at ddull o reoleiddio sy'n seiliedig ar risg, gan ddod â budd i weithredwyr organig y DU drwy gael gwared ar archwiliadau blynyddol, a thrwy hynny leihau costau;

– cyflwyno camau gweithredu penodol am beidio â chydymffurfio er mwyn sicrhau mwy o chwarae teg ar draws aelod-wladwriaethau'r UE;

– cytundebau rhwng yr UE a thrydydd gwledydd a allai leihau'r rhwystrau i allforwyr y DU;

– cyflwyno system o ardystio grwpiau o ffermwyr, a allai fod o fudd i rai gweithredwyr bach yn y tymor canolig a'r tymor hir; a

– mwy o hyder ymhlith defnyddwyr a mwy o alw am gynnyrch organig.

Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn crybwyll pryder Llywodraeth y DU y gall rheolau cynhyrchu llymach arwain at ragor o achosion o beidio â chydymffurfio, gan ei bod yn llai tebygol y cynhelir archwiliadau, ac y bydd gostyngiad net yn nifer y gweithredwyr a gaiff eu harchwilio. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn awgrymu y gallai diddymu eithriadau penodol, yn enwedig y rhai sy'n

[10] Llywodraeth Cymru, Cymorth ar gyfer Ffermio Organig 2015-2020, Dogfen Ymgynghori, 21 Ionawr 2014 [fel ar 13 Mai 2014]
[11] Canolfan Organig Cymru, **Tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer ymchwiliad y Cynulliad i gynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig**, Hydref 2014 [fel ar 11 Awst 2015].
[12] Canolfan Organig Cymru, **Tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer ymchwiliad y Cynulliad i gynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig**, Hydref 2014 [fel ar 11 Awst 2015].
[13] Llywodraeth Cymru, Alun Davies (y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 6 Chwefror 2014 [fel ar 12 Mai 2014]

ymwneud â phorthiant anorganig, arwain at gostau cynhyrchu uwch i weithredwyr yn y DU, ac y gallai hyn gyfyngu ar nifer y ffermwyr bach sy'n dewis ffermio'n organig yn y DU.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn sôn yn benodol am bryder Llywodraeth y DU ynghylch y cynigion i gael gwared ar eithriadau sy'n caniatáu gweithgareddau ffermio confensiynol ar ffermydd organig. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y mathau hyn o fusnes yn fwy cyffredin yn sector organig y DU nag yn unman arall yn yr UE. Dywedodd y gallai cael gwared ar yr eithriad hwn gael effaith negyddol ar gyfanswm arwynebedd y tir organig yn y DU.

### Llywodraeth Cymru

Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae wedi ymgynghori â DEFRA ar y rheoliadau drafft i sicrhau bod pryderon y gwledydd datganoledig yn cael eu mynegi yn y trafodethau rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol. Mae'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd wedi dweud y gallai'r cynigion fel y'u drafftiwyd gael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar Gymru.

### Ymateb rhanddeiliaid allweddol

Cyhoeddodd Organic Farmers & Growers (OF&G) Ltd **eu bod o blaid y cynigion**, gan dynnu sylw at y manteision i'r sector yn sgil symleiddio rheoliadau a chael gwared ar rwystrau deddfwriaethol.

Mae'r Ffederasiwn Rhyngwladol Symudiadau Amaethyddol Organig (IFOAM) **yn gefnogol i 'amcanion rhagorol' y Comisiwn** ac yn nodi bod nifer o syniadau da yn y cynigion. Fodd bynnag, mae IFOAM hefyd wedi datgan nad yw'r rheoliad newydd yn cryfhau digon ar y fframwaith cyfreithiol a gwleidyddol yn achos cynhyrchion organig, ac mae'n argymell creu Cynllun Gweithredu Organig newydd a Rheoliad Organig newydd.

Ar y llaw arall, mae **Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) o'r farn bod y Rheoliad presennol eisoes yn gaeth iawn** ac mae'n pryderu y gallai'r rheoliadau newydd arfaethedig fygwth twf y sector. Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn nodi bod newid porthiant anifeiliaid i fod yn gwbl organig yn her benodol, oherwydd bod rhai anifeiliaid, fel moch a dofednod, angen deiet cytbwys o ran maeth.

Mae safbwynt Copa-Cogena – grŵp cydweithredol o dros 90 o ffermwyr a sefydliadau amaethyddol yn yr UE – yn ddigon tebyg i safbwynt Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr. Yn fwyaf arbennig, mae o'r farn y bydd diddymu'r eithriad sy'n caniatáu ffermio confensiynol ochr yn ochr â ffermio organig yn fygythiad posibl i'r sector.[14] Yn ôl Pekka Pesonen, Ysgrifennydd-Cyffredinol Copa-Cogeca:

> ...in many regions, farms often convert into organic farming in a series of stages, for various reasons, like economic or structural reasons. Without the ability to adapt gradually to organic production, it will put the brakes [sic] on the development of the sector.

Mae Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi casglu tystiolaeth gan randdeiliaid yn ystod ei ymchwiliad i'r cynigion. [15] Mae wedi ysgrifennu at y Sefydliadau Ewropeaidd yn mynegi'r safbwyntiau hyn.

## Hynt y cynigion yn sefydliadau'r UE

***Bydd yr adran hon yn cael ei diweddaru wrth i'r trafodaethau barhau ym Mrwsel ac wrth i safbwyntiau swyddogol sefydliadau'r UE ddod yn glir.***

Cyhoeddwyd y cynigion am y tro cyntaf gan y Comisiwn ar 24 Mawrth. Mae'r cynigion yn destun i'r weithdrefn ddeddfwriaethol arferol (yr hen weithdrefn gydbenderfynu) pan fo'n rhaid i'r Cyngor a Senedd Ewrop ddod i gytundeb arnynt.

---

[14]Copa-Cogeca, Datganiad i'r Wasg, *New EU legislation for the organic sector must promote European organic production*, 25 Mawrth 2014 [fel ar 13 Mai 2014]

[15] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, **Ymchwiliad i gynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig** [fel ar 12 Awst 2015].

### Senedd Ewrop

Ar 3 Medi 2014, cafodd y cynigion eu haseinio i Bwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (y Pwyllgor) Senedd Ewrop, a phenodwyd Martin Häusling fel rapporteur. Ar 7 Mai 2015, cyhoeddwyd Adroddiad Drafft y Rapporteur, gan gynnig 353 o welliannau, a oedd yn cynnwys:

- Cynnig y gellid cynnal ffermio cymysg am y cyfnod mwyaf o ddeng mlynedd wrth addasu;
- Caniatáu torri cynffonnau a digornio mamaliaid ifanc mewn rhai amgylchiadau;
- Cynnig y byddai angen i borthiant ar gyfer daliad organig ddod o ranbarthau 'NUTS I' (Enwau Unedau Tiriogaethol at Ddibenion Ystadegaeth). Mae Cymru ei hun yn rhanbarth 'NUTS I';
- Y cynnig i bennu terfynau gweddillion uwchlaw lle na ellir gwerthu cynhyrchion fel rhai organig;
- Newid nifer o ddarpariaethau o weithrediadau dirprwyedig awgrymedig i'r atodiadau a'r rheoliadau sylfaenol (yn benodol mewn perthynas â rheolau cynhyrchu).

Trafododd Aelodau o Senedd Ewrop y Pwyllgor yr Adroddiad Drafft ar 26 Mai 2015. Roedd yr Aelodau'n croesawu'r Adroddiad Drafft yn gyffredinol. Ym mis Mehefin 2015, cyflwynodd Aelodau o Senedd Ewrop y Pwyllgor welliannau i'r Adroddiad Drafft. Roedd y Pwyllgor yn fod i bleidleisio ar y rhain cyn toriad yr haf, ond oherwydd y nifer fawr o welliannau a awgrymwyd, mae'r bleidlais wedi'i hoedi tan ganol mis Medi.

### Y Cyngor Ewropeaidd

Cafodd y Cyngor Amaethyddiaeth a Physgodfeydd (y Cyngor) drafodaethau ar y cynigion yn 2014 a 2015 ac ar 16 Mehefin 2015, cytunodd y Cyngor ar ddull cyffredinol. O fewn y dull hwn, roedd y Cyngor yn ffafrio newid i ddull yn seiliedig ar risg ar gyfer archwiliadau lle byddai daliadau fferm gyda hanes o gydymffurfio am o leiaf dair blynedd yn newid i archwiliadau bob 30 mis yn hytrach na bob blwyddyn. Gall aelod-wladwriaethau sydd â therfyn cenedlaethol ar gyfer halogi sy'n arwain at ddileu ardystiad ar hyn o bryd barhau gyda'r terfyn hwnnw tan ddiwedd 2020. Cynigiodd y Cyngor gyflwyno rhanddirymiad sy'n caniatáu daliadau cymysg, ar yr amod bod rhywogaethau gwahanol o dda byw ac amrywiaethau gwahanol o blanhigion yn cael eu cynnwys. Cynigiodd y Cyngor ganiatáu defnyddio hadau anorganig am gyfnod penodol o amser pan nad yw deunydd atgynhyrchu organig ar gael ar y farchnad.

Disgwylir dechrau trafodaethau tairochrog rhwng y Cyngor ac Aelodau o Senedd Ewrop yn ystod hydref 2015.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â

Nia Seaton (**Nia.Seaton@cynulliad.cymru**)

**Rhif:** 0300 200 6313

neu

Gregg Jones (**Gregg.Jones@Cynulliad.cymru**)

**Rhif ffôn:** 00 32 22 26 66 92

**Ffôn symudol:** 0044 7816 164455